Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

Mai 2024

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

## Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol Llywodraeth y DU

**1.** Cafodd Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol ei gyflwyno yn wreiddiol yn Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Gorffennaf 2022. Fodd bynnag, cafodd y Bil hwn ei ohirio wedi hynny cyn ei ail ddarlleniad.

**2.** Cafodd y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)[1] ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 8 Mawrth 2023.

**3.** Trosglwyddwyd y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) i sesiwn 2023-24 Senedd y DU a daeth yn Fil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol[2] ("y Bil"). Noddir y Bil gan yr Adran dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg.

**4.** Cyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Tachwedd 2023, a chafodd ei drydydd darlleniad ar 29 Tachwedd 2023.

**5.** Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn rhoi'r trosolwg a ganlyn:

> *"This Bill is intended to update and simplify the UK's data protection framework with a view to reducing burdens on organisations while maintaining high data protection standards."*[3]

**6.** Mae enw hir y Bil yn nodi pwrpas y Bil fel a ganlyn:

> *"Make provision for the regulation of the processing of information relating to identified or identifiable living individuals; to make provision about services consisting of the use of information to ascertain and verify facts about individuals; to make provision about access to customer data and business data; to make provision about privacy and electronic communications; to make provision about services for the provision of electronic signatures, electronic seals and other trust services; to make provision about the disclosure of information to improve public service delivery; to make provision for the implementation of agreements on sharing*

---

[1] Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), fel y'i cyflwynwyd (Bil 265)
[2] Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigonol, fel y'i cyflwynwyd (Bil 1)
[3] Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, fel y'i cyflwynwyd, Nodiadau Esboniadol, Tachwedd 2023

*information for law enforcement purposes; to make provision about the keeping and maintenance of registers of births and deaths; to make provision about information standards for health and social care; to establish the Information Commission; to make provision about oversight of biometric data; and for connected purposes."*[4]

**7.** Cynhaliwyd y darlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 6 Rhagfyr 2023, ac yn fuan wedyn cafwyd ail ddarlleniad ar 19 Rhagfyr. Dechreuodd y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 20 Mawrth 2024 a daeth i ben ar 24 Ebrill 2024. Ar adeg cytuno ar yr adroddiad hwn, nid oedd y Cyfnod Adrodd wedi'i amserlennu eto.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3)

**8.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu ei bod yn ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

**9.** Ar 29 Mawrth 2023, gosododd y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru ar y pryd, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.[5]

**10.** Gosododd y Prif Weinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar 25 Mai 2023.[6]

**11.** Gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2 ar 24 Gorffennaf 2023 (ein hadroddiad cyntaf).[7]

**12.** Mae paragraffau 14 a 15 o'n hadroddiad cyntaf yn disgrifio'r gwaith rhynglywodraethol ar y Bil.

---

[4] Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, fel y'i cyflwynwyd (Bil 1)
[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), Mawrth 2023
[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), 25 Mai 2023
[7] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), Gorffennaf 2023

**13.** Nododd paragraffau 16 i 19 a 30 i 32 o'n hadroddiad cyntaf gymalau yn y Bil yr oedd Llywodraeth Cymru, ar y pryd, yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, a lle roedd anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

**14.** Mae paragraffau 20 i 26 a 33 i 46 o'n hadroddiad cyntaf yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, fel y'i nodwyd yn y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2.

**15.** Mae paragraffau 47 i 60 o'n hadroddiad cyntaf yn ystyried y dynamig rhwng y DU a'r UE sy'n berthnasol i'r Bil.

**16.** Roedd ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys chwe chasgliad a saith argymhelliad.

**17.** Ymatebodd y Prif Weinidog i'n hadroddiad cyntaf ar 5 Medi 2023.[8]

**18.** Gosododd y Prif Weinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall (Memorandwm Rhif 3)[9] ar 11 Rhagfyr 2023.

**19.** Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 3 ar 26 Ionawr 2024 (ein hail adroddiad).[10]

**20.** Mae paragraffau 21 a 22 o'n hail adroddiad yn disgrifio'r gwaith rhynglywodraethol ar y Bil.

**21.** Mae paragraffau 23 i 27 o'n hail adroddiad yn nodi cymalau'r Bil yr oedd Llywodraeth Cymru, ar y pryd, o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd arnynt, ac yn tynnu sylw at safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, fel y nodir ym Memorandwm Rhif 3.

**22.** Roedd ein hail adroddiad yn cynnwys chwe chasgliad a 10 argymhelliad.[11]

---

[8] Llythyr gan Brif Weinidog Cymru, 5 Medi 2023

[9] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, 11 Rhagfyr 2023

[10] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, Ionawr 2024

[11] Ar 31 Ionawr 2024, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Prif Weinidog yn gofyn am ragor o wybodaeth am ddarpariaethau yn ymwneud â marchnata uniongyrchol ac ymysgylltu democrataidd (ni chafodd y darpariaethau hyn eu hystyried fel rhan o Femorandwm Rhif 3) a chafodd ymateb gan y Prif Weinidog ar 12 Chwefror 2024.

**23.** Gwnaethom ysgrifennu[12] at Bwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi i dynnu ei sylw at ein hail adroddiad, a chafwyd ymateb[13] ar 30 Ionawr 2024.

**24.** Ymatebodd y Prif Weinidog i'n hail adroddiad ar 8 Mawrth 2024.[14]

**25.** Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, Jeremy Miles AS (yr Ysgrifennydd Cabinet), eto ar 16 Ebrill 2024[15], mewn ymateb i gwestiynau pellach a ofynnwyd gennym ar 15 Mawrth 2024[16].

**26.** Ar 13 Mai 2024, rhannwyd gohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, fel y cyfeiriwyd ati yn llythyr yr Ysgrifennydd Cabinet ar 16 Ebrill 2024, â'r Pwyllgor. Roedd yr ohebiaeth hon yn cynnwys llythyr gan y Prif Weinidog at Julia Lopez AS, y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol, ar 23 Ionawr 2024; a llythyrau gan y Gweinidog Gwladol ar 6 Chwefror 2024 a 1 Mawrth 2024.[17]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 4)

**27.** Ar 13 Mawrth 2024, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i'r Bil i'w hystyried yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.

**28.** Yn ei lythyr atom ar 16 Ebrill 2024, nododd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'n gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol pellach, mewn perthynas â'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 13 Mawrth 2024.[18]

**29.** Gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4)[19] ar 25 Ebrill 2024.

**30.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a

---

[12] Llythyr at Bwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi, 26 Ionawr 2024
[13] Llythyr gan Bwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi, 30 Ionawr 2024
[14] Llythyr gan y Prif Weinidog, 8 Mawrth 2024
[15] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024
[16] Llythyr at y Prif Weindiog, 15 Mawrth 2024
[17] Ar gyfer yr ohebiaeth hon, ewch i dudalen gwe Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol
[18] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024
[19] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4), y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, 25 Ebrill 2024

Chysylltiadau Rhyngwladol gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 4 erbyn 13 Mai 2024.[20]

**Ymgysylltu â Llywodraeth y DU a gwaith rhynglywodraethol**

**31.** Yn ei lythyr ar 16 Ebrill 2024, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod trafodaethau gyda Llywodraeth y DU wedi dod i ben. Dywedodd:

> *"Cawsom 'becyn terfynol' o welliannau arfaethedig gan Lywodraeth y DU y mae'n dweud y byddai'n fodlon eu gwneud pe bai Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn ddigonol i argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad ar gyfer y Bil. Ar ôl ystyried y pecyn yn ofalus, gwnaethom hysbysu Llywodraeth y DU ar 9 Ebrill nad oedd y pecyn arfaethedig o welliannau yn ddigonol ac, felly, ni fyddai Llywodraeth Cymru yn argymell rhoi cydsyniad ar gyfer y Bil."*[21]

**32.** Mae Atodiad 2 i lythyr yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi manylion y ceisiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru a'r gwelliannau a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU mewn ymateb.[22]

**33.** Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r bwriad polisi y tu ôl i lawer o'r Bil, mae'r gwelliannau arfaethedig yn cynrychioli diffyg symud sylweddol ar ran Llywodraeth y DU y tu hwnt i gynnig darpariaethau ymgynghori. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir drwy gydol taith y Bil fod cynnwys unrhyw fath o ddarpariaeth ymgynghori mewn meysydd yr ydym yn ystyried eu bod wedi'u datganoli, neu greu pwerau cydredol heb fecanwaith cydsynio, yn groes i'n hegwyddorion mewn perthynas â Biliau'r DU, yn ogystal â gwrthwynebiad cyson y Senedd i ddulliau tebyg."*[23]

**34.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Lywodraeth y DU "ailystyried ei safbwynt" ar y pryderon y mae wedi'u codi ar y Bil

---

[20] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen i'w hystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, Mai 2024
[21] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024
[22] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024, Atodiad 2
[23] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024

"er mwyn inni ddod o hyd i ddatrysiad boddhaol a fyddai'n ein galluogi i argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r Bil"[24].

**35.** Mae paragraffau 5 a 6 o Femorandwm Rhif 4 yn nodi i'r Senedd waith ymgysylltu Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU ers gosod Memorandwm Rhif 3 ar 11 Rhagfyr 2023.

**36.** Ym mharagraff 6 o Femorandwm Rhif 4 mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan:

> *"Mae ymgysylltu ar lefel swyddogol a lefel Weinidogol hefyd wedi parhau mewn perthynas â phryderon yn ymwneud ag effaith y Bil ar gadw Digonolrwydd Data'r UE ac mewn perthynas â goblygiadau datganoledig y darpariaethau canlynol (fel y nodir yn y Memoranda blaenorol):*
>
> *• Rhan 2, Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS) - cymal 74, Cod Ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth (cymal 56 fel y'i cyflwynwyd);*
>
> *• Rhan 3, Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau - cymalau 85-107 (cymalau 61-77 fel y'u cyflwynwyd);*
>
> *• Rhan 4, Darpariaeth arall am wybodaeth ddigidol - cymal 126, Rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddiben gorfodi'r gyfraith ar waith (cymal 93 fel y'i cyflwynwyd) a chymal 127, Ystyr "appropriate national authority", a chymal 151 Rheoliadau; a*
>
> *• Rhan 4, Darpariaeth arall ynghylch Gwybodaeth Ddigidol – cymalau 138–141 Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol."*

## Y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm, Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3 a darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**37.** Mae rhifau cymalau ym Memorandwm Rhif 4 yn cyfeirio at y Bil fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin.

[24] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024

**38.** Fel y nodir ym mharagraffau 11 i 25 o Femorandwm Rhif 4, yn ôl asesiad yr Ysgrifennydd Cabinet, mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau a ganlyn:

- Mewn perthynas â Rhan 3 o'r Bil (data am gwsmeriaid a data am fusnesau) – gwelliant i gymal 96 (Ardoll) (credwn mai gwelliant 196 yw hwn[25]) a gwelliant i gymal 103 (Rheoliadau o dan y Rhan hon) (credwn mai gwelliant 197 yw hwn[26]).

- Mewn perthynas â Rhan 4 o'r Bil (Darpariaeth arall am Wybodaeth Ddigidol) – gwelliannau i gymal 138 (Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol (NUAR)) (credwn mai gwelliannau 240 i 246 yw'r rhain[27]), gwelliannau i gymal 139 (Gwybodaeth mewn perthynas â chyfarpar) (credwn mai gwelliannau 248 a 249[28] yw'r rhain), a gwelliant i Atodlen 13 (Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol: cosbau ariannol) (credwn mai gwelliant 247 yw hwn[29]).

**39.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan bod Llywodraeth y DU yn cytuno bod cymalau 85 i 107 o'r Bil (61 i 77 fel y'i cyflwynwyd) ynghylch data am gwsmeriaid a data am fusnesau yn ymwneud â mater datganoledig "i'r graddau y mae'r cwsmer yn fusnes ac nid yn unigolyn", ac felly yn ystyried bod "angen cydsyniad deddfwriaethol ond mae'n gyfyngedig yn hyn o beth"[30]. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn ychwanegu bod Llywodraeth y DU o'r farn bod y mater a gadwyd yn ôl o reoleiddio gwerthu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau i ddefnyddwyr yn gymwys (paragraff 72(a) o Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006)).

**40.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet hefyd yn datgan bod Llywodraeth y DU yn cytuno â safbwynt Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymalau 138 i 141 sy'n rhan o'r darpariaethau NUAR yn y Bil.[31]

[25] Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli i'w cynnig yn yr Uwch Bwyllgor
[26] Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli i'w cynnig yn yr Uwch Bwyllgor
[27] Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli i'w cynnig yn yr Uwch Bwyllgor
[28] Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli i'w cynnig yn yr Uwch Bwyllgor
[29] Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli i'w cynnig yn yr Uwch Bwyllgor
[30] Memorandwm Rhif 4, paragraff 24
[31] Memorandwm Rhif 4, paragraff 25

**41.** Ym Memorandwm Rhif 4, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi trosolwg wedi'i ddiweddaru o safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil.

**42.** O ran cymalau 85 i 107, sy'n ymwneud â data am gwsmeriaid a data am fusnesau, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan bod "Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r dull cyfredol i roi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig unwaith eto'n adlewyrchu datganoli a'i fod yn amhriodol".[32]

**43.** Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa a amlinellwyd yn llythyr yr Ysgrifennydd Cabinet atom ar 16 Ebrill 2024 lle dywedodd fod creu pwerau cydredol heb fecanweithiau cydsynio yn groes i egwyddorion Llywodraeth Cymru ac nad yw'n parchu datganoli.[33] Yn yr un llythyr, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio pwerau cydredol plws[34], gan ychwanegu:

> *"Byddai cael pwerau i wneud rheoliadau cydredol yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar sut mae Cynlluniau Data Clyfar yn cael eu darparu yng Nghymru. Byddai hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno cynlluniau mewn sectorau lle nad oes gan Lywodraeth y DU unrhyw gynlluniau, neu mewn sectorau sy'n cael eu hystyried gan Lywodraeth y DU ond sy'n flaenoriaeth isel."*[35]

**44.** O ran cymalau 138 i 141, sy'n ymwneud â chreu NUAR, yn ei lythyr atom ar 8 Mawrth 2024 dywedodd y Prif Weinidog wrthym ei fod wedi ysgrifennu at y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol, ar 23 Ionawr 2024, yn nodi pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch dull deddfwriaethol arfaethedig Llywodraeth y DU ac effaith darpariaethau NUAR ar bwerau Gweinidogion Cymru.[36]

**45.** Ym Memorandwm Rhif 4, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am safbwynt Llywodraeth Cymru ac yn datgan "ystyriwn fod tynnu swyddogaeth weithredol ddatganoledig yn mynd yn hollol groes i ddatganoli".[37]

---

[32] Memorandwm Rhif 4, paragraff 26
[33] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024, Atodiad 2
[34] Mae pŵer "cydredol plws" yn fath o bŵer cydredol y gellir ei arfer: (a) gan Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru; neu (b) ar yr amod bod Gweinidogion Cymru yn cydsynio, gan Weinidogion y DU mewn perthynas â Chymru. Pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried p'un ai i roi cydsyniad i Weinidogion y DU weithredu pŵer cydredol plws, maent yn gweithredu swyddogaeth statudol. Os nad ydynt yn rhoi cydsyniad, ni all Gweinidogion y DU weithredu y pwerau hyn mewn perthynas â Chymru.
[35] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024, Atodiad 2
[36] Gweler paragraff 26.
[37] Memorandwm Rhif 4, paragraff 26

**46.** Unwaith eto, mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa a amlinellwyd yn llythyr yr Ysgrifennydd Cabinet atom ar 16 Ebrill 2024 lle dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi hysbysu Llywodraeth y DU ei bod yn "gwbl amhriodol" tynnu swyddogaeth weithredol ddatganoledig oddi wrth Weinidogion Cymru. Dywedodd wrthym hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio y dylai'r gwelliant a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU, a fyddai'n sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cadw eu pwerau gwneud rheoliadau presennol o dan adran 79 o *Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991* "fod yn amodol arnom ni yn cytuno i unrhyw un o'r diwygiadau eraill a gynigiwyd".[38]

**47.** Yn ei lythyr ar 16 Ebrill 2024, rhoddodd yr Ysgrifennydd Cabinet ragor o fanylion am bryderon Llywodraeth Cymru ynghylch darpariaethau NUAR yn y Bil. Dywedodd:

> *"… nid yw'r diwygiadau yn y Bil i adran 79 o NRSWA 1991 yn nodi bod y "cofnod o wybodaeth" i'w ddefnyddio neu ei gofnodi'n unig at ddibenion yr NUAR. Nid oes unrhyw beth ychwaith i ddangos na ellir defnyddio'r cofnodion hyn at ddibenion eraill y tu hwnt i gylch gwaith yr NUAR. Mae hyn yn golygu, er bod y cofnod o wybodaeth yn hanfodol i'r NUAR, gallai unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan eu pwerau presennol fod â diben y tu hwnt i ddiben yr NUAR. Mae hyn, unwaith eto, yn awgrymu y byddai dileu pwerau Gweinidogion Cymru yn ddull anghymesur.*
>
> *Er bod mecanwaith "ymgynghori" wedi'i gynnwys yn y narpariaethau NUAR, nid yw hyn yn gosod unrhyw ymrwymiad rhwymol ar Lywodraeth y DU i ystyried ein barn yn dilyn ymgynghoriad ac nid yw'n adlewyrchu datganoli yn briodol. Nid ystyrir bod hyn yn dderbyniol yn gyfansoddiadol ac ni all wneud iawn am ddileu y pwerau sydd eisoes gan Weinidogion Cymru.*
>
> *Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch a fyddai'r darpariaethau hyn yn effeithio'n negyddol ar y gallu i reoli ein data ein hunain yng Nghymru, lle maent yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol gadw'r data sydd yn y gofrestr wybodaeth. Ar hyn o bryd mae gan gyrff yng Nghymru fynediad at ddata o'r fath ac mae'n*

[38] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024

*bwysig cadw'r hawl i gael mynediad at y data a gwneud newidiadau iddo, yn ôl yr angen."*[39]

**48.** Ym Memorandwm Rhif 4, mae Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarpariaethau yn y Bil sydd wedi bod yn destun y memoranda cydsyniad deddfwriaethol blaenorol ac yn nodi, er gwaethaf trafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU ers cyflwyno'r Bil, "mae'r pryderon a amlinellwyd ar draws y tri Memorandwm blaenorol yn parhau mewn perthynas â goblygiadau datganoledig sawl darpariaeth yn y Bil".[40]

**49.** O ran cymal 41 (cymal 36 fel y'i cyflwynwyd yn flaenorol), sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer Hysbysiadau Cyfweliadau, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan bod pryderon yn parhau gyda'r cymal hwn. Mae'n datgan bod Gweinidogion Cymru o'r farn y dylid caniatáu esemptiad tebyg i'r hyn sy'n ymddangos yn y Bil ar gyfer y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted) i Weinidogion Cymru fel y rheoleiddiwr ar gyfer y gwasanaethau cyfatebol yng Nghymru.[41]

**50.** Yn ei lythyr atom ar 16 Ebrill 2024, tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at y ffaith bod Llywodraeth y DU, yn ei phecyn o welliannau arfaethedig yr oedd Llywodraeth Cymru yn ystyried yn annigonol, wedi cynnig dileu esemptiad Ofsted i bwerau hysbysiadau cyfweliadau y Comisiynydd Gwybodaeth, ac y byddai esemptiad presennol Ofsted i bwerau hysbysiad asesu'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan adran 147(6) o *Ddeddf Diogelu Data 2018* yn cael eu dileu.[42] Roedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn fodlon â'r gwelliant arfaethedig gan ei fod yn mynd i'r afael â'i "[ph]ryderon ynghylch sicrhau bod ein polisi ar gyfer Cymru yn gydradd".[43]

**51.** O ran cymalau 74 a 78 (cymalau 54 a 56 fel y'u cyflwynwyd yn flaenorol) sy'n gwneud darpariaeth ynghylch Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS), mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan, gan yr ystyrir bod y ddau gymal hyn yn ymwneud â materion datganoledig, bod "Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r dull cyfredol i roi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig yn adlewyrchu datganoli a'i fod yn amhriodol".[44]

[39] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024, Atodiad 2
[40] Memorandwm Rhif 4, paragraff 26
[41] Memorandwm Rhif 4, paragraff 27
[42] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024 Atodiad 2
[43] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024, Atodiad 2
[44] Memorandwm Rhif 4, paragraff 26

**52.** Yn ei lythyr ar 16 Ebrill 2024, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod Llywodraeth y DU wedi cynnig diwygio cymal 78 i'w gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth baratoi neu adolygu'r Cod Ymarfer.[45] Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn "am bwerau cydredol plws ynghyd ag eithriad mewn perthynas â chymal 78", gan ychwanegu:

> *"Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU gael cydsyniad Gweinidogion Cymru i unrhyw God Ymarfer ar gyfer y DU gyfan fod yn gymwys i Gymru, wrth hefyd roi'r pŵer i Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi Cod Ymarfer penodol i Gymru, pe baem yn dymuno gwneud hynny yn y dyfodol.*
>
> *Mabwysiadwyd y dull hwn yn unol â'n hegwyddorion cyfansoddiadol, a chan gydnabod rhinweddau alinio â'r DU."*[46]

**53.** O ran cymal 126 (cymal 93 yn flaenorol), sy'n gwneud darpariaeth ynghylch gweithredu cytundebau rhannu gwybodaeth gorfodi'r gyfraith, a chymalau 127 a 151, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch ystyr "appropriate national authority" a Rheoliadau, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi ei farn bod gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth ar gyfer erlyn troseddau a gweithredu cosbau troseddol ar ystod eang o faterion datganoledig. Dywed fod "Gweinidogion Cymru unwaith eto o'r farn nad yw rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig yn adlewyrchu datganoli a'i fod yn amhriodol"[47]. Mae'n ychwanegu:

> *"Ein barn ni yw y gellid adlewyrchu cydnabyddiaeth briodol ar gyfer buddiannau datganoledig ochr yn ochr â rhinweddau posibl darparu polisi ledled y DU drwy roi pwerau cydredol plws ym mhob un o'r meysydd uchod. Byddai hyn yn sicrhau y gallai'r pwerau datganoledig gael eu harfer yng Nghymru lle bo hynny'n berthnasol, gan ddarparu ar yr un pryd bod unrhyw ymgais gan Lywodraeth y DU i arfer y pwerau hynny yng Nghymru yn amodol ar gytundeb Gweinidogion Cymru. Mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod y dull hwnnw, gan gynnig gwelliannau gan gynnwys pwerau cydredol (heb fecanweithiau cydsynio) a darpariaethau ymgynghori. Nid yw'r dull hwn yn*

[45] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024, Atodiad 2
[46] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024, Atodiad 2
[47] Memorandwm Rhif 4, paragraff 26

> *cyd-fynd â'n hegwyddorion, na gwrthwynebiad cyson y Senedd i greu pwerau cydredol o'r fath."*[48]

**54.** Ym Memorandwm Rhif 4, mae Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn cadarnhau bod pryderon yn parhau mewn perthynas â "materion cydgysylltiedig annibyniaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac effaith y Bil ar statws Digonolrwydd Data yr UE y DU, gyda nifer o'r darpariaethau'n cael eu hystyried yn heriol a chanddynt y potensial o gael eu hadolygu gan y Comisiwn a'u herio'n gyfreithiol yn Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd".[49]

**55.** Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Mae'r pryder hwn ynghylch statws Digonolrwydd yn cael ei rannu gan eraill, ac fe'i adlewyrchir yn adroddiad Adran yr Economi Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon 'Deall risgiau trosglwyddo data personol ar draws ffiniau: Digonolrwydd Data UE-DU'."*[50]

**56.** Wrth ymateb i'n hail adroddiad, dywedodd y Prif Weinidog wrthym fod Llywodraeth y DU wedi anfon llythyr at Lywodraeth Cymru ar 1 Mawrth 2024 lle gwrthododd rannu ei hasesiad risg ar effaith bosibl y Bil ar benderfyniad y DU ar ddigonolrwydd data'r UE.[51] Gofynnom i Lywodraeth Cymru rannu gohebiaeth 1 Mawrth 2024 â ni. Yn ei lythyr atom ar 16 Ebrill 2024, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gytundeb gan Lywodraeth y DU i rannu'r ohebiaeth â ni a'i bod yn aros am ateb.[52] Daeth yr ohebiaeth hon i law'r Pwyllgor ar 13 Mai 2024.[53]

**57.** Daw Ysgrifennydd y Cabinet i'r casgliad, ym Memorandwm Rhif 4, na all Llywodraeth Cymru argymell bod y Senedd yn cydsynio i'r Bil "oherwydd y pryderon cyfansoddiadol sy'n parhau".[54]

---

[48] Memorandwm Rhif 4, paragraff 26. Gweler hefyd lythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024, Atodiad 2
[49] Memorandwm Rhif 4, paragraff 28
[50] Memorandwm Rhif 4, paragraff 29
[51] Llythyr gan y Prif Weinidog, 8 Mawrth 2024
[52] Gweler hefyd lythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024, Atodiad 1
[53] Gweler paragraff 26.
[54] Memorandwm Rhif 4, paragraff 31

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**58.** Gwnaethom drafod Memorandwm Rhif 4 ar 7 Mai 2024.[55] Cytunwyd ar ein hadroddiad ar 13 Mai 2024.[56] Gan bod yr ohebiaeth wedi dod i law yn hwyr ar 13 Mai 2024, dim ond yn gryno iawn yr oedd modd i ni adolygu'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU dyddiedig 23 Ionawr 2024, 6 Chwefror 2024, a 1 Mawrth 2024. Mae hyn yn annerbyniol.

## Ein barn ni

### Cydsyniad deddfwriaethol

**59.** Nodwn asesiad yr Ysgrifennydd Cabinet o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir ym Memorandwm Rhif 4.

**Casgliad 1.** Rydym yn ystyried bod y gwelliannau i'r cymalau (a'r Atodlen) fel y nodir ym Memorandwm Rhif 4 yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer o ganlyniad i hynny.

**60.** Rydym yn nodi bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi dod i'r casgliad nad yw'n briodol argymell bod y Senedd yn rhoi ei gydsyniad i'r Bil "oherwydd y pryderon cyfansoddiadol sy'n parhau".

### Ymgysylltu â Llywodraeth y DU, gwaith rhynglywodraethol, ac arsylwadau cyffredinol

**61.** Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gofyn am newidiadau i'r Bil ers ei gyflwyno a, thrwy'r memoranda cynharach ac mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor, mae'r Prif Weinidog blaenorol a'r Ysgrifennydd Cabinet wedi ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor a'r Senedd am ymgysylltiad rhynglywodraethol.

**62.** Rydym yn nodi sylwadau'r Ysgrifennydd Cabinet fod Llywodraeth y DU wedi cynnig "pecyn terfynol' o welliannau arfaethedig, a wrthodwyd wedyn gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn barnu eu bod yn annigonol.

**63.** Yn benodol o ran y darpariaethau NUAR yn y Bil, rydym yn nodi datganiadau'r Ysgrifennydd Cabinet na ddylai'r gwelliant a gynigir gan

[55] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 7 Mai 2024
[56] Y Pwyllgor deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Mai 2024

Lywodraeth y DU, a fyddai'n sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cadw eu pwerau presennol i wneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991, fod yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn cytuno i'r gwelliannau arfaethedig eraill. Ar y pwynt hwn, rydym yn cytuno â safbwynt yr Ysgrifennydd Cabinet.

**64.** Ar ôl i'r trafodaethau rhynglywodraethol hyn ddod i ben, nid yw'n ymddangos bod gwelliannau wedi'u gwneud i'r Bil i fynd i'r afael â chynigion Llywodraeth Cymru. Mae anallu llywodraethau i ddod i gytundeb ar faterion o bwys sylweddol yn arwain at ganlyniadau anfoddhaol. Mae hwn yn adlewyrchiad siomedig o'r hyn yr ydym yn dod i'w weld yn rheolaidd pan fydd Biliau a gyflwynir i Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig.

**65.** At hynny, nid yw'n glir inni a fydd gwelliannau'n dilyn yn ddiweddarach yn ystod hynt y Bil drwy Senedd y DU ond, gyda'r Bil yn y Cyfnod Adrodd yn yr ail Dŷ, nodwn ei fod eisoes yn eithaf pell ar ei daith.

**66.** Rydym yn nodi bod y Bil yn parhau i fod â goblygiadau mewn perthynas â meysydd datganoledig a chymhwysedd gweithredol datganoledig, sef:

- Rhoi pwerau dirprwyedig amrywiol i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys i weithredu mewn meysydd datganoledig yn Rhan 3 o'r Bil ac yn Rhan 3A newydd ac adran 80 o Ddeddf 1991, ym mhob achos heb roi pwerau cydredol neu gydredol plws i Weinidogion Cymru yn y meysydd hynny.
- Dychwelyd pwerau dirprwyedig o dan adran 79 o Ddeddf 1991 (fel y'i diwygiwyd gan y Bil) oddi wrth Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol.
- Dirymu is-ddeddfwriaeth y cytunwyd arni gan y Senedd, sef Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005, ac ymestyn y rheoliadau cyfatebol yn Lloegr i Gymru, drwy gymal 141 o'r Bil.

**Casgliad 2.** Mae rhoi pwerau dirprwyedig amrywiol i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys i weithredu mewn meysydd datganoledig, pwerau a ddirprwyir ar hyn o bryd i Weinidogion Cymru o dan adran 79 o *Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991* yn cael eu trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol, a dirymu deddfwriaeth y Senedd ar ffurf Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005 yn faterion difrifol ac mae gennym bryderon ynghylch eu priodoldeb cyfansoddiadol.

**Casgliad 3.** Fel Pwyllgor rydym eisoes wedi croesawu'r strwythurau rhynglywodraethol diwygiedig a oedd yn deillio o'r adolygiad o gysylltiadau

rhynglywodraethol a gynhaliwyd ar y cyd gan lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. O ystyried y strwythurau newydd hyn, nid ydym yn glir pam nad yw Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi gallu dod i gytundeb ar faterion cyfansoddiadol pwysig sy'n deillio o'r Bil.

**Casgliad 4.** Os caiff y Bil ei basio gan Senedd y DU yn ei ffurf bresennol a bod y Senedd yn atal ei gydsyniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil (fel y nodir yn y memoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Senedd), bydd hyn unwaith eto yn bwrw amheuaeth ar weithrediad Confensiwn Sewel.

**67.** Rydym yn gwneud sylwadau pellach ar rai o'r materion hyn wrth i ni ystyried cymalau penodol o'r Bil (a diwygiadau i'r darpariaethau hynny) a materion sydd heb eu datrys o'n hail adroddiad yn yr adran nesaf o'r adroddiad hwn.

## Sylwadau ynghylch cymalau penodol o'r Bil (a gwelliannau i'r Bil) a materion heb eu datrys o'n hail adroddiad

### Darpariaethau sy'n ymwneud â data am gwsmeriaid a data am fusnesau

**68.** Mae cymalau 86 ac 88 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau amrywiol i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys mewn perthynas â data am gwsmeriaid a data am fusnesau. Darperir cwmpas eang i'r rheoliadau gynnwys amrywiaeth eang o fusnesau sy'n cyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu gynnwys digidol sy'n prosesu data perthnasol.

**69.** Yn hyn o beth, nodwn yn benodol fod y llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol ar 1 Mawrth 2024 yn cadarnhau mai bwriad Llywodraeth y DU yw y bydd y Bil yn galluogi defnydd gwell o ddata ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion.

**70.** O ystyried eu statws fel darpariaethau perthnasol ym mhob memorandwm cydsyniad deddfwriaethol blaenorol, mae'r cymalau yn y Bil sy'n ymwneud â data am gwsmeriaid a data am fusnesau wedi bod yn destun sylwebaeth helaeth yn ein hadroddiad cyntaf a'n hail adroddiad.

**71.** Yn ein hail adroddiad daethom i'r casgliad, heb asesiad llawn Llywodraeth Cymru o oblygiadau datganoledig y pwerau gwneud rheoliadau yn Rhan 3 o'r Bil sy'n ymwneud â data am gwsmeriaid a data am fusnesau, nid oeddem yn credu y bydd gan y Senedd ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ddylai gydsynio i'r darpariaethau perthnasol hyn yn y Bil.

**72.** Pan wnaethom ysgrifennu at y Prif Weinidog ar 15 Mawrth 2024, gwnaethom ddatgan ein barn, hyd at y pwynt hwnnw, nad oedd yr ymatebion a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i'n hadroddiad cyntaf a'n hail adroddiad yn rhoi asesiad o oblygiadau datganoledig y pwerau gwneud rheoliadau yn Rhan 3 o'r Bil.

**73.** Rydym yn cydnabod, yn Atodiad 2 o'i lythyr atom ar 16 Ebrill 2024, fod yr Ysgrifennydd Cabinet yn darparu rhagor o fanylion ynghylch sut a pham y gofynnodd Llywodraeth Cymru i gymalau 85 i 107 o'r Bil gael eu diwygio a beth fyddai Gweinidogion Cymru yn ei wneud pe dirprwywyd pwerau cydredol plws iddynt i wneud rheoliadau.

**74.** Rydym yn nodi asesiad Ysgrifennydd y Cabinet y byddai cael pwerau cydredol i wneud rheoliadau yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar sut mae cynlluniau Data Clyfar yn cael eu darparu yng Nghymru, tra hefyd yn ei galluogi i gyflwyno cynlluniau mewn sectorau lle nad oes gan Lywodraeth y DU gynlluniau i wneud hynny neu mewn sectorau sydd, er eu bod yn cael eu hystyried gan Lywodraeth y DU, yn flaenoriaeth isel.

**75.** Rydym yn nodi mai barn yr Ysgrifennydd Cabinet fel y'i nodir ym Memorandwm Rhif 4 yw bod y dull presennol o roi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig yn methu ag adlewyrchu datganoli a'i fod yn amhriodol, ac na ellir argymell cydsyniad "oherwydd y pryderon cyfansoddiadol sy'n parhau".

**Casgliad 5.** Mewn perthynas â'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â data am gwsmeriaid a data am fusnesau, rydym yn cydnabod ac yn cefnogi barn yr Ysgrifennydd Cabinet bod rhoi pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol ac nid Gweinidogion Cymru y gellir eu harfer mewn meysydd datganoledig yn amhriodol. Drwy estyniad, rydym hefyd o'r un farn mewn perthynas â phwerau cyfatebol i wneud rheoliadau y gellir eu harfer gan y Trysorlys mewn meysydd datganoledig, fel y'u rhoddir gan y Bil.

**76.** Rydym yn nodi bod y gwelliannau i gymalau 96 a 103, fel y nodir ym Memorandwm Rhif 4, yn diwygio ymhellach ddarpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd.

**Darpariaethau sy'n ymwneud â'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol**

**77.** Yn ein hail adroddiad, nodwyd gennym, drwy welliannau a wnaed i'r Bil yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, fod darpariaethau newydd wedi'u hychwanegu at y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol, ac yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â nhw, cadw cofrestr o wybodaeth sy'n ymwneud â chyfarpar ar strydoedd, i gael ei galw yn Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol (NUAR).

**78.** Nodwyd ein pryderon bod pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991, i'r graddau y gellir eu harfer mewn perthynas â Chymru, i'w trosglwyddo o Weinidogion Cymru yn ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol drwy welliant NC42 a gyflwynwyd yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin.

**79.** Gwnaethom ddweud bod trosglwyddo pwerau i wneud rheoliadau sydd ar hyn o bryd yn arferadwy gan Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol – sy'n golygu addasu cymhwysedd datganoledig – yn fater difrifol, ac ni wnaeth yr esboniad a roddwyd gan Lywodraeth y DU roi cyfiawnhad priodol na digonol.

**80.** Gwnaethom argymell, o ystyried y "pryderon polisi cyfansoddiadol" ynghylch darpariaethau'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol yn y Bil ac yn benodol dychwelyd pwerau o dan adran 79 o Ddeddf 1991 (i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru), dylai'r Prif Weinidog uwchgyfeirio'r mater hwn i drafodaethau ar lefel Weinidogol, hyd at a chan gynnwys y gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer datrys anghydfodau.

**81.** Gwnaethom hefyd ddweud y byddem yn croesawu manylion am unrhyw gamau adferol y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y gallai eu cymryd mewn cysylltiad â throsglwyddo pwerau dirprwyedig presennol sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol. Wrth wneud hynny, gwnaethom ofyn yn benodol p'un a yw Llywodraeth Cymru yn ystyried y byddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i gyflwyno darpariaethau mewn Bil a fyddai'n ail-ddirprwyo i Weinidogion Cymru y pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991 sy'n cael eu trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**82.** Rydym yn cydnabod yr ymatebion perthnasol gan y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet i ni a oedd yn cadarnhau:

- Ysgrifennodd y Prif Weinidog at y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol ar 23 Ionawr 2024 yn nodi pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch dull deddfwriaethol arfaethedig Llywodraeth y DU ac effaith darpariaethau NUAR ar bwerau Gweinidogion Cymru.[57]

- Er bod mecanwaith ymgynghori wedi'i gynnwys yn narpariaethau NUAR, nid yw'n rhoi unrhyw ymrwymiad rhwymol ar Lywodraeth y DU i ystyried barn Llywodraeth Cymru yn dilyn ymgynghoriad, a dywedodd Llywodraeth Cymru wrth Lywodraeth y DU nad yw'n cael ei hystyried yn

[57] Llythyr gan y Prif Weinidog, 8 Mawrth 2024

gyfansoddiadol dderbyniol ac na all wneud iawn am ddileu pwerau sydd eisoes gan Weinidogion Cymru.[58]

- Mae gan Lywodraeth Cymru bryderon ynghylch a fyddai'r darpariaethau hyn yn effeithio'n negyddol ar y gallu i reoli ein data ein hunain yng Nghymru, lle maent yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol gadw'r data sydd yn y gofrestr wybodaeth.[59]

- Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth Lywodraeth y DU ei bod yn gwbl amhriodol dileu swyddogaeth weithredol ddatganoledig oddi wrth Weinidogion Cymru, ac na ddylai'r gwelliant a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU a fyddai'n sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cadw eu pwerau gwneud rheoliadau presennol o dan adran 79 o Ddeddf 1991 yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn cytuno i unrhyw un o'r gwelliannau eraill a gynigir.[60]

- Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i gyflwyno darpariaethau mewn Bil a fyddai'n ailddirprwyo'r pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru o dan adran 79 o Ddeddf 1991, ar yr amod bod Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â Gweinidog priodol y DU yn unol â pharagraff 11(2) o Atodlen 7B i Ddeddf 2006.[61]

**Casgliad 6.** Rydym yn cydnabod ac yn cefnogi barn Ysgrifennydd y Cabinet, mewn perthynas â'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â Chofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol, bod cael gwared ar swyddogaeth weithredol ddatganoledig yn "mynd yn hollol groes i ddatganoli".

**Casgliad 7.** Mae dirymu is-ddeddfwriaeth y cytunwyd arni gan y Senedd, sef Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005, ac ymestyn y rheoliadau cyfatebol yn Lloegr i Gymru (drwy gymal 141 o'r Bil) yn amhriodol.

**Argymhelliad 1.** Pe byddai'r Bil yn cael ei ddeddfu ar ei ffurf bresennol, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gadarnhau ai bwriad Llywodraeth Cymru yw cyflwyno darpariaethau mewn Bil a fyddai'n ailddirprwyo'r pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru o dan adran 79 o *Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd*

[58] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024
[59] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024
[60] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024
[61] Llythyr gan y Prif Weinidog, 8 Mawrth 2024

*1991* (ar yr amod bod Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â Gweinidog priodol y DU yn unol â pharagraff 11(2) o Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*).

**83.** Rydym yn nodi bod y gwelliannau i gymalau 96 a 103, fel y nodir ym Memorandwm Rhif 4, yn diwygio ymhellach ddarpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd.

**Darpariaethau yn ymwneud â hysbysiadau cyfweliadau**

**84.** Gwnaethom sylwadau hefyd ar y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â hysbysiadau cyfweliadau yn ein hadroddiad cyntaf a'n hail adroddiad.

**85.** Fel yr amlygwyd ym Mhennod 1 yr adroddiad hwn, mae cymal 41 yn cynnwys esemptiad i Ofsted rhag pwerau hysbysiad cyfweliadau y Comisiynydd Gwybodaeth. Ni ddarparwyd esemptiad cyfatebol i Weinidogion Cymru ar gyfer swyddogaethau tebyg sy'n arferadwy yng Nghymru. Rydym yn nodi, er bod Llywodraeth y DU yn cynnig dileu esemptiad Ofsted yn hytrach na darparu esemptiad tebyg i Weinidogion Cymru fel y gofynnwyd gan Lywodraeth Cymru, roedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn fodlon â'r gwelliant arfaethedig hwn gan ei fod yn mynd i'r afael â'i phryderon "ynghylch sicrhau bod ein polisi ar gyfer Cymru yn gydradd".

**86.** Hyd yma, ni chytunwyd ar unrhyw welliant o'r fath ac felly erys gwahaniaeth rhwng y darpariaethau sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr. Felly, rydym yn cydnabod safbwynt Llywodraeth Cymru bod pryderon yn parhau mewn perthynas â chymal 41.

**Darpariaethau sy'n ymwneud â Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS)**

**87.** Yn ein dau adroddiad blaenorol, rydym hefyd wedi edrych yn fanwl ar y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â DVS.

**88.** Yn ein hail adroddiad gwnaethom ddweud, er nad ydym o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â Gwasanaethau Dilysu Digidol, rydym serch hynny yn awyddus i ddeall goblygiadau datganoledig Cod Ymarfer ar gyfer y DU gyfan ynghylch datgelu gwybodaeth a'r pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol. Gwnaethom hefyd ddod i'r casgliad, os bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fod o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â DVS, nid ydym o'r farn y bydd gan y Senedd ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ddylai gydsynio i'r darpariaethau hyn yn y Bil heb wybodaeth fanwl am ddarpariaethau.

**89.** Yn ei lythyr atom ar 8 Mawrth 2024, dywedodd y Prif Weinidog wrthym, ar 6 Chwefror 2024, fod y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol, Julia Lopez AS, wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn nodi, o dan Nodyn Canllaw ar Ddatganoli Cymru[62], y dylid ceisio cydsyniad wrth roi neu osod swyddogaethau a gadwyd yn ôl ar awdurdod Cymreig datganoledig. O ganlyniad, er bod Llywodraeth y DU yn mynnu bod y swyddogaethau hyn wedi'u cadw'n ôl, roedd Llywodraeth y DU bellach o'r farn y dylid ceisio cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymal 74 a chymal 78(3).[63]

**90.** Gwnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru rannu â ni yr ohebiaeth a ddaeth i law ar 6 Chwefror 2024 gan y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol.[64] Gwnaethom hefyd anfon cais tebyg at y Gweinidog Gwladol.[65]

**91.** Cafodd y llythyr dyddiedig 6 Chwefror 2024 ei rannu â ni ar 13 Mai 2024. Nodwn fod y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Ddigidol yn datgan yn ei lythyr:

> "*The UK Government maintains that these functions are reserved, but in further consideration of the Welsh Devolution Guidance Note, which sets out that consent should also be sought when conferring or imposing reserved functions on a devolved Welsh authority, we have come to the view that it is appropriate to seek agreement to Clause 74 and Clause 78(3) - either through a Legislative Consent Motion or a statement made by the Welsh Ministers - noting that there is no procedure in the Senedd Standing Orders covering situations where a UK Parliament bill imposes reserved functions on devolved Welsh authorities.*"

**92.** Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd ymateb gan y Gweinidog Gwladol wedi dod i law'r Pwyllgor.

**93.** O ystyried y newid ymddangosiadol yn safbwynt Llywodraeth y DU ar gydsyniad deddfwriaethol ar gyfer darpariaethau'r DVS o ganlyniad i ymgynghori â'r DGN, gwnaethom hefyd ofyn i Lywodraeth Cymru am ei barn ar y gwahanol feini prawf a dulliau gweithredu y mae'n ymddangos eu bod yn cael eu cymhwyso gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Rheolau Sefydlog y

[62] Llywodraeth y DU, Devolution Guidance Note, Parliamentary and Assembly Primary Legislation affecting Wales (Saesneg yn unig)
[63] Llythyr gan y Prif Weinidog, 8 Mawrth 2024
[64] Llythyr gan y Prif Weinidog, 15 Mawrth 2024
[65] Llythyr at y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol, Julia Lopez AS, 15 Mawrth 2024

Senedd wrth asesu a oes angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar ddarpariaethau Bil. Yn ei lythyr atom ar 16 Ebrill 2024, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod Llywodraeth Cymru "wedi ymrwymo i gonfensiwn Sewel" fel yr adlewyrchir yn adran 107(6) o Ddeddf 2006 ac y byddai'n "parhau i gydymffurfio â Rheolau Sefydlog y Senedd".[66]

**94.** Fel y gwnaethom ddweud yn ddiweddar yn ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion[67], nid yw'r ffaith bod DGN Llywodraeth y DU yn nodi'r rhesymau pan fo'n meddwl bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau yn neddfwriaeth y DU yn berthnasol at ddiben y profion yn Rheolau Sefydlog y Senedd. Gosodir Memorandwm Rhif 4 gerbron y Senedd o dan Reol Sefydlog 29, ac mae'n ddryslyd a di-fudd i gyfeirio at feini prawf nad ydynt yn berthnasol i broses cydsyniad deddfwriaethol y Senedd.

**95.** Rydym yn parhau i fod o'r farn nad yw cymalau 74 a 78 o'r Bil sy'n ymwneud â'r DVS yn gwneud darpariaeth at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Casgliad 8.** Er ein bod yn anghytuno â safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gofyniad am gydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â chymalau 74 a 78 (a gwelliannau cysylltiedig i'r cymalau hynny), rydym yn cefnogi'r farn, pan ystyrir bod materion yn ymwneud â materion datganoledig, y dylid rhoi pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig yn amhriodol. Yn hyn o beth, nodwn farn Llywodraeth y DU y dylid ceisio cydsyniad deddfwriaethol wrth roi neu osod swyddogaethau a gedwir yn ôl ar awdurdod Cymreig datganoledig ac, o ganlyniad, mae'n ystyried y dylid ceisio cytundeb ar gyfer cymal 74 a chymal 78(3).

### Darpariaethau yn ymwneud â gweithredu cytundebau rhannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith, ystyr "appropriate national authority" ("awdurdod cenedlaethol priodol"), a Rheoliadau

**96.** Yn ein hadroddiad cyntaf a'n hail adroddiad, gwnaethom sylwadau ar y pwerau yn y Bil i wneud rheoliadau at ddiben gweithredu cytundeb rhyngwladol yn ymwneud â rhannu gwybodaeth.

**97.** Pan na fo Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i weithredu cytundebau rhyngwladol a bod pwerau yn y Bil i wneud hynny'n cael eu harfer

[66] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, 16 Ebrill 2024, Atodiad 1
[67] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, Ebrill 2024

gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn lle hynny, gwnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ymrwymiad y byddai'n darparu esboniad manwl i'r Senedd cyn i reoliadau o'r fath gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**98.** Rydym yn nodi ymateb y Prif Weinidog ar 8 Mawrth 2024 sef "Os bydd hyn yn digwydd, bydd y Senedd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf drwy'r broses arferol."[68]

**99.** Rydym hefyd yn nodi barn Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd ym Memorandwm Rhif 4, y gallai cydnabyddiaeth briodol i fuddiannau datganoledig gael ei hadlewyrchu ochr yn ochr â rhinweddau posibl cyflawni polisi ledled y DU drwy roi pwerau cydredol plws, ond gwrthodwyd hyn gan Lywodraeth y DU a oedd yn lle hynny yn cynnig diwygiadau gan gynnwys pwerau cydredol â darpariaethau ymgynghori.

**Casgliad 9.** Rydym yn cydnabod ac yn cefnogi barn yr Ysgrifennydd Cabinet sef, mewn perthynas â'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â gweithredu cytundeb rhannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith, mae rhoi pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig y gellir eu harfer mewn meysydd datganoledig ac yn methu ag adlewyrchu datganoli ac yn amhriodol.

**Penderfyniad cyfredol y DU ar ddigonolrwydd data'r UE**

**100.** Rydym wedi tynnu sylw yn ein dau adroddiad blaenorol at y ffaith bod y Bil wedi arwain at rai pryderon ynghylch risg i benderfyniad presennol y DU ar ddigonolrwydd data, a ganiatawyd ym mis Mehefin 2021 gan yr UE am gyfnod cychwynnol o 4 blynedd. Roeddem yn cydnabod bod y Bil yn croestorri rhwymedigaethau'r DU-UE.

**101.** Er bod Llywodraeth Cymru, yn y Memorandwm, wedi nodi ei barn bod colli penderfyniad digonolrwydd presennol y DU yn "bryder arbennig o safbwynt masnach"[69], mae ein pryderon yn ymestyn y tu hwnt i fasnach i'r holl rannu data a gwmpesir gan y Bil a phenderfyniad digonolrwydd, gan gynnwys cydweithredu gorfodi'r gyfraith.[70] Nid oes unrhyw wybodaeth bellach wedi'i darparu gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â meysydd data eraill a gwmpesir gan y penderfyniad, gan gynnwys meysydd datganoledig.

---

[68] Llythyr gan y Prif Weinidog, 8 Mawrth 2024
[69] Memorandwm, paragraff 34
[70] Adroddiadar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), paragraff 99

**102.** Rydym yn nodi, ym Memorandwm Rhif 4, fod Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod â phryderon ynghylch effaith y Bil ar statws Digonolrwydd Data UE y DU ac yn cyfeirio at her gyfreithiol bosibl yn Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.

**103.** Yn ein barn ni, byddai darparu esboniad wedi'i deilwra o bryderon Llywodraeth Cymru a'r effaith ar Gymru ym Memorandwm Rhif 4 wedi bod o gymorth i ni, a'r Senedd, wrth inni ystyried effaith y Bil.

**Casgliad 10.** Mae'r farn a fynegwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet ym Memorandwm Rhif 4, y gallai nifer o ddarpariaethau'r Bil effeithio ar statws Digonolrwydd Data'r UE y DU a'r potensial i arwain at her gyfreithiol yn Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, yn drawiadol ac yn bryderus.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet, yn ystod y ddadl ar y cydsyniad perthnasol ar gyfer y Bil, ddarparu manylion llawn i egluro ei ddatganiad bod nifer o ddarpariaethau'r Bil effeithio ar statws Digonolrwydd Data'r UE y DU a'r potensial i arwain at her gyfreithiol yn Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.

**104.** Fel Pwyllgor y Senedd sy'n gyfrifol am fonitro goblygiadau materion allanol ar faterion cyfansoddiadol, pan fyddwn yn ystyried memoranda cydsyniad deddfwriaethol rydym, fel mater o drefn, yn edrych am unrhyw faterion a allai gael effaith o'r fath. Yn ystod ein hystyriaeth o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol[71], roeddem wedi gallu sicrhau ymrwymiad[72] gan Lywodraeth Cymru y byddai'n ei gwneud yn glir pan fydd Biliau'r DU yn croestorri rhwymedigaethau rhyngwladol.

**Argymhelliad 3.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi'n glir yn ystod y ddadl gydsynio berthnasol ar gyfer y Bil a yw Llywodraeth Cymru, yn ogystal â rhwymedigaethau'r DU-UE a nodwyd eisoes, o'r farn bod gan y Bil oblygiadau ar gyfer trefniadau rhyngwladol eraill megis y bont ddata rhwng y DU a'r Unol Daleithiau a sefydlwyd yn 2023. Os felly, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu gwybodaeth fanwl.

## Ansawdd Memorandwm Rhif 4

**105.** Mae Memorandwm Rhif 4 yn anffodus yn disgrifio gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno i'r Bil yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi drwy gyfeirio at yr hyn sy'n

[71] Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Cymwysterau Proffesiynol
[72] Llythyr gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg, 6 Hydref 2021, ymateb i argymhelliad 9

ymddangos yn gyfeiriadau rhynglywodraethol mewnol, yn hytrach na'r rhifau sy'n gysylltiedig â'r gwelliannau ar y papurau gwelliannau sydd ar gael yn gyhoeddus.

**106.** Rydym yn deall, yn ystod trafodaethau rhynglywodraethol cyn cyflwyno, y gellir defnyddio system rifo i nodi ac olrhain datblygiadau a thrafodaethau ar ddiwygiadau penodol. Fodd bynnag, mae'r rhifau hynny'n amherthnasol i unrhyw un y tu allan i Lywodraethau Cymru a'r DU.

**Casgliad 11.** Er mwyn tryloywder ac i gynorthwyo proses graffu sydd eisoes yn anodd, dylai gwelliannau a restrir yn y memoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Senedd gael eu disgrifio er mwyn cyfeirio at y rhifau sydd ynghlwm wrthynt ym mhapurau diwygio ffurfiol Senedd y DU.